

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Hay-on-Wye Dental Centre

Dyddiad yr arolygiad: 30 Gorffennaf 2024

Dyddiad cyhoeddi: 30 Hydref 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copiâu o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
• Ansawdd Profiad y Claf	9
• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	18
Y camau nesaf	21
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Hay-on-Wye Dental Centre ar 30 Gorffennaf 2024.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 25 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn Hay-on-Wye Dental Centre. Roedd y cleifion yn cael eu trin gan staff proffesiynol a chyfeillgar a oedd yn gweithio i barchu eu hurddas a chynnal eu hawliau. Dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn cael digon o wybodaeth am eu gofal a'u bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am iechyd eu ceg.

Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion drwy holiadur AGIC yn gadarnhaol, a nododd pob ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym ei bod yn hawdd iddynt gael apwyntiad pan oedd angen un arnynt ac y byddent yn gwybod â phwy i gysylltu mewn argyfwng. Roedd y gweithdrefnau brysbennu er mwyn rheoli argyfyngau yn gadarn ac roedd y cleifion yn cael eu gweld mewn modd amserol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau cefnogol ar waith ar gyfer y cleifion yr oedd angen gwneud addasiadau rhesymol ar eu cyfer
- Roedd cymorth ychwanegol ar gael ar gyfer y cleifion nerfus
- Roedd yr holl adborth gan y cleifion yn gadarnhaol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd y practis yn rhoi gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd glân, trefnus a thaclus. Roedd yr adeilad a'r holl gyfarpar deintyddol a ddefnyddir gan y practis mewn cyflwr da er mwyn sicrhau y gellir eu dihalogi'n effeithiol. Roedd ardal y dderbynfa a oedd wedi cael ei hadnewyddu'n ddiweddar o faint priodol ac yn ddigon mawr i ddiwallu anghenion y cleifion.

Gwelsom fod polisiâu a gweithdrefnau addas ar waith i sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion yn cael eu cynnal. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol yn cael ei ddefnyddio'n gyson ac yn briodol wrth drin y cleifion ac roedd y gweithdrefnau rheoli heintiau cyffredinol yn briodol.

Roedd y trefniadau diogelu yn briodol i amddiffyn plant ac oedolion, a rhoddodd y staff wybod i ni y byddent yn teimlo'n hyderus i godi unrhyw bryderon diogelu. Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion yn cyflwyno darlun cyflawn o'r gofal a roddwyd, ond nodwyd gennym y dylid gwneud rhai gwelliannau. Roedd angen gwella'r

weithdrefn ar gyfer rheoli atgyfeiriadau cleifion hefyd er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael y gofal sydd ei angen arnynt.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r system sydd ar waith ar gyfer monitro atgyfeiriadau'r cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y gweithdrefnau ar gyfer rheoli iechyd a diogelwch yn gadarn
- Roedd yr holl ddyfeisiau meddygol yn lân ac yn ddiogel ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant er mwyn eu dihalogi'n gywir.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu clir ar waith i sicrhau bod y practis yn cael ei reoli'n effeithiol. Esboniodd rheolwr y practis ei fod wedi cael y cymorth a'r hyfforddiant priodol i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod pwy i siarad â nhw pe byddai angen iddynt wneud hynny.

Roedd y staff a welsom ac y gwnaethom siarad â nhw yn gyfeillgar â'u cymheiriaid ac yn ymddwyn yn broffesiynol â'r cleifion. Gwelsom fod y practis yn cydymffurfio'n llawn â hyfforddiant gorfodol ar gyfer y staff a bod system reoli dda ar waith i fonitro hyfforddiant staff. Roedd holl rwymedigaethau proffesiynol y staff yn cael eu rheoli'n briodol, ond nodwyd gennym nad oedd un aelod o'r staff wedi cael arfarniad.

Roedd adborth a chwynion gan gleifion yn cael eu rheoli mewn modd priodol ac roedd dull rhagweithiol ar waith i wella ansawdd. Fodd bynnag, nodwyd gennym nad oedd un o'r archwiliadau yn cyd-fynd â'r gweithdrefnau sydd ar waith yng Nghymru.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff a gaiff ei gyflogi yn cael arfarniad blynyddol
- Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl archwiliadau rheoli heintiau yn cyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y trefniadau ar gyfer casglu adborth ac ymateb iddo yn gadarn
- Gwelsom gydberthnasau gwaith cryf rhwng y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Dosbarthodd AGIC holiadur er mwyn casglu barn y cleifion am y gofal a gânt gan Hay-on-Wye Dental Centre. Cafwyd cyfanswm o 25 o ymatebion gan gleifion yn y lleoliad hwn. Nid atebodd rhai o'r ymatebwyr bob cwestiwn, gan olygu nad oedd 25 o ymatebion ar gyfer pob cwestiwn.

Ar y cyfan, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol. Cytunodd pob un o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn fod y gwasanaeth a ddarperir yn Hay-on-Wye Dental Centre yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Cyfeillgar, yn barod i helpu, ystyriol ac yn hawdd i'w ddefnyddio/cysylltu â'r staff."

"Rwy'n hapus iawn â'r practis hwn ers y dechrau. Cwrtais, yn barod i helpu ac yn ofalgar iawn."

"Ni allwn fod wedi gofyn am bractis gwell."

"Rwyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael gofal da yn y practis hwn. Mae pob aelod o'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn barod i helpu ac rwy'n fodlon iawn ar y gwasanaeth."

"Rwyf wedi bod gyda'r practis hwn ers dros 35 mlynedd ac wedi cael gwasanaeth rhagorol bob amser."

Yn canolbwyntio ar yr unigolyn

Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Roedd yn amlwg bod gwybodaeth hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion priodol ar gael yn y practis. Roedd gwybodaeth i'w gweld yn yr ardal aros am ffyrdd o gynnal gwên iach yn ogystal â chyngor ar roi'r gorau i smygu. Roedd set o ddogfennau cynhwysfawr ar gael yn y llyfryn i gleifion yn y dderbynfa hefyd a oedd yn cynnwys copi o'r daflen wybodaeth i gleifion a chopïau o'r gweithdrefnau perthnasol i'r cleifion eu darllen. Hefyd, roedd sgrin ddigidol ar gael yn ardal y dderbynfa i

gyfleu gwybodaeth i gleifion wrth iddynt aros. Roedd ffioedd triniaethau wedi'u nodi yn y llyfryn i gleifion yn y dderbynfa, ochr yn ochr ag enwau clinigwyr a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. At hynny, roedd rhif cofrestru pob deintydd â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i nodi y tu allan i'r deintyddfa. Roedd oriau agor y practis a manylion cyswllt mewn argyfwng i'w gweld ar y drws ffrynt.

Nododd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC fod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir ar sut i gynnal iechyd y geg da.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal llawn urddas a pharch drwy gydol eu hamser yn Hay-on-Wye Dental Centre. Gwelsom fod galwadau ffôn yn cael eu hateb i ffwrdd o ardal y brif dderbynfa er mwyn sicrhau nad yw sgysiau cyfrinachol yn cael eu clywed gan bobl eraill. Byddai unrhyw sgysiau preifat yr oedd angen eu cynnal rhwng y cleifion a staff y dderbynfa yn digwydd i ffwrdd o'r brif ddesg mewn ystafell ochr.

Wrth gael eu penodi, roedd pob aelod o'r staff yn llofnodi cytundeb cyfrinachedd a oedd yn amlinellu'r ffordd y byddent yn sicrhau preifatrwydd gwybodaeth am gleifion. Roedd y drysau cadarn a oedd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau yn sicrhau preifatrwydd y cleifion yn yr ystafelloedd trin. Roedd y ffenestri yn yr ystafelloedd trin naill ai yn wynebu cae agored heb i neb allu edrych i mewn neu'n cynnwys gwydr barugog i ddiogelu preifatrwydd y cleifion. Gwnaethom nodi fod y Naw Egwyddor a nodwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u cynnwys yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion yn y dderbynfa.

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt yn ystod eu hapwyntiad a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Cyfeillgar, yn barod i helpu, ystyriol ac yn hawdd i'w ddefnyddio/cysylltu â'r staff.”

“Cyfeillgar, yn barod i helpu ac yn ofalgar.”

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Nododd pob unigolyn a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys yn y penderfyniadau am eu triniaeth. Nododd pob un o'r cleifion hefyd eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau triniaeth a oedd ar gael, gan gynnwys gwybodaeth am risgiau a

manteision yr opsiynau hynny. Roedd pob un o'r cleifion hefyd yn cytuno eu bod wedi cael gwybodaeth addas am yr hyn y dylent ei wneud os bydd haint neu mewn argyfwng a sut y byddai'r lleoliad yn datrys unrhyw bryderon ar ôl triniaeth.

Gwelsom fod y practis yn ceisio darparu lleoliad hamddenol i gleifion drwy gael gwared ar arogl clinigol yr ardaloedd aros a'r deintyddfeydd er mwyn cefnogi'r cleifion nerfus sy'n mynychu eu hapwyntiadau.

Dyweddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wrthym:

“Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn gwneud i mi deimlo'n gwbl gyfforddus.”

“Mae'r staff yn effeithlon, yn barod i helpu ac yn gyfeillgar. Rwy'n glaf nerfus ond yn teimlo'n gwbl gyfforddus ac yn hyderus gyda'r deintyddion rwyf wedi eu gweld yn y practis hwn. Cymerir gofal i sicrhau bod y claf/cleifion yn gyfforddus.”

“Mae gen i hanes hir o ffobia deintyddol a bu'n rhaid i mi gael fy annog am beth amser i gysylltu â'r practis hwn. Rwyf wedi cael fy nhrin gyda'r gofal a'r sylw gorau posibl - mae fy ofnau wedi cilio ac mae fy mywyd wedi gwella'n sylweddol. Roedd yn ddrud, ond yn werth pob ceiniog.”

Amserol

Gofal amserol

Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i reoli apwyntiadau a defnyddio amser yr ymarferwyr yn briodol. Pe bai oedi o ran triniaethau'r cleifion, dywedwyd wrthym y byddai'r nyrsys yn rhoi gwybod i staff y dderbynfa dros y ffôn neu yn cwrdd â'r cleifion i esbonio'r rhesymau dros yr oedi. Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.

Gwelsom fod apwyntiadau brys yn cael eu cynnwys yn amserlen y practis drwy gydol y dydd. Cynghorir unrhyw glaf y mae angen gofal brys arno i ffonio a byddai'n cael ei frysbennu dros y ffôn mewn ymgynghoriad â deintydd os bydd angen. Dywedwyd wrthym na fyddai unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 24 awr i gael ei weld mewn argyfwng.

Dyweddodd y staff wrthym fod amseroedd aros i gleifion yn dibynnu ar y driniaeth a'r clinigwyr a ffefrir, ond nad oedd unrhyw glaf yn aros mwy na thair wythnos i gael ei weld fel arfer. Roedd apwyntiadau yn cael eu trefnu yn unol ag argaeledd y cleifion lle bynnag y bo'n bosibl, gan gynnwys trefniadau i drin plant oedran ysgol y tu allan i oriau ysgol.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion (20/25) a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar ofal deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Nododd yr ymatebwyr hefyd eu bod wedi ei chael hi'n 'hawdd iawn' (17/25) neu'n 'eithaf hawdd' (8/25) cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Dywedodd y cleifion wrthym:

“Mae hyblygrwydd gwych o ran fy apwyntiadau a gofynnodd y practis yn garedig i glaf arall newid ei apwyntiad. Roedd hyn yn osgoi'r posibilrwydd o wastraffu amser.”

“Mae'n rhaid aros yn hir am apwyntiadau weithiau, ond mae'n bosibl trefnu apwyntiad yn eithaf sydyn os oes problem ond nid gyda'r deintydd a ffefrir.”

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom fod trefniadau addas ar waith er mwyn sicrhau bod dulliau cyfathrebu effeithiol rhwng y clinigwyr a'r cleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddai dogfennau ar gael mewn fformatau gwahanol drwy gorff corfforaethol y practis. Roedd poster yn y dderbynfa yn galluogi'r staff i nodi dewis iaith y cleifion, gyda llinell iaith neu adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio pan fo angen. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod triniaethau ar gael yn newis iaith y cleifion.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion a'r staff yn cael eu trin yn gyfartal, a bod hawliau unigolion yn cael eu cynnal yn addas. Roedd polisi priodol ar waith a oedd yn amlinellu'r dull o gefnogi hawliau'r cleifion a'r staff. Gwelsom fod y staff yn cwblhau hyfforddiant penodol er mwyn diogelu hawliau'r cleifion, yn ogystal â hyfforddiant ar atal achosion o aflonyddu neu wahaniaethu.

Rhoddodd y staff enghreifftiau lle roedd newidiadau wedi'u gwneud i weithdrefnau neu'r amgylchedd fel addasiad rhesymol ar gyfer y cleifion a'r staff. Roedd y rhain yn cynnwys prynu cadair arbenigol i gefnogi'r cleifion ag anawsterau symudedd, a phrynu sbectolau i gleifion er mwyn iddynt allu darllen dogfennaeth y practis. Gwelsom fod asesiadau desg yn cael eu cynnal er mwyn i staff sicrhau eu bod yn eistedd yn briodol ac yn ddiogel, a oedd yn cynnwys newidiadau o ganlyniad i'r asesiadau hynny.

Gwnaethom nodi bod doler sain ar gael yn y practis i'r rhai ag amhariadau ar y clyw ac ysgrifbin mwy trwchus i'w ddefnyddio yn y dderbynfa ar gyfer cleifion sy'n ei chael hi'n anodd ysgrifennu. Roedd hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal

ymhellach drwy ganiatáu iddynt ddewis y rhagenwau a'r enwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion, gyda nodyn yn cael ei roi ar ffeil i sicrhau bod pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'r dewisiadau hyn.

Nododd y mwyafrif o'r cleifion (21/22) fod yr adeilad yn hygyrch a dywedodd un claf nad oedd yn siŵr. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd y practis mewn cyflwr da yn fewnol ac yn allanol a gwelsom ei fod yn cael ei gadw i safon dda er mwyn rhoi gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd y practis wedi'i leoli ar lawr gwaelod adeilad pwrpasol. Roedd pedair deintyddfa o faint priodol ac ardal aros addas ar gyfer nifer y cleifion. Roedd drws mynedfa ar wahân i'r rhai ag anawsterau symudedd yn y practis ac roedd pob ardal y tu mewn yn hygyrch. Clywsom y llinellau ffôn yn gweithio'n effeithiol a gwelsom fod ardaloedd newid addas â loceri ar gael i'r staff. Gwelsom fod y toiledau i staff a chleifion yn lân ac yn cynnwys digon o gyfarpar, ac roedd ardal newid cewynnau a larwm argyfwng yn y toiled i gleifion.

Roedd y cyfarpar deintyddol mewn cyflwr da ac roedd digon o eitemau ar gael i allu eu dihalogi'n effeithiol ar ôl eu defnyddio. Gwelsom hefyd fod eitemau untro yn cael eu defnyddio lle y bo'n briodol.

Roedd polisiau a gweithdrefnau addas ar waith i gefnogi iechyd, diogelwch a llesiant y cleifion a'r staff. Roedd asesiadau risg diweddar wedi cael eu cynnal ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch. Gwelsom fod polisiau ar waith ar gyfer sicrhau bod y safle'n addas at y diben o hyd ac ar gyfer rheoli risgiau. Wrth edrych ar y cyfarpar a'r wybodaeth diogelwch tân, gwelsom fod trefniadau cadarn a chynhwysfawr ar waith mewn perthynas â diogelwch tân. Roedd y trefniadau hyn yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân yn rheolaidd ac arddangos arwyddion diogelwch tân a dim smygu yn glir. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriadau wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau diogelwch nwy a thrydan gan gontractwyr. Roedd Profion Dyfeisiau Cludadwy wedi cael eu cynnal yn ddiweddar hefyd.

Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr y practis wedi'i chynnwys yn y llyfryn gwybodaeth i gleifion wrth y dderbynfa ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i'w weld yn yr ystafell staff.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod polisiau a gweithdrefnau rheoli heintiau priodol ar waith i gynnal amgylchedd gwaith diogel, gyda lefel dda o lendid. Roedd amserlenni glanhau addas ar waith a oedd yn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn y practis. Roedd Cyfarpar Diogelu Personol digonol ar gael i'r staff i gefnogi'r gofal diogel a roddir i gleifion. Roedd y trefniadau hylendid dwylo a'r arwyddion yn gynhwysfawr. Gwelsom fod yr holl gyfarpar a'r amgylchedd yn cael eu cynnal a'u cadw'n foddhaol fel bod modd eu glanhau a'u dihalogi'n effeithiol. Dywedodd pob

un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y practis yn lân iawn. Nododd pob un o'r ymatebwyr hefyd fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn yn briodol.

Gwelsom fod trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod cyfarpar aml dro yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio'n gywir yn ystafell ddihalogi'r practis. Gwnaethom edrych ar y cofnodion o'r gwiriadau ar gylchredau'r peiriant awtoclaf ac amserlen o waith cynnal a chadw rheolaidd. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn deall eu cyfrifoldebau unigol mewn perthynas â mesurau rheoli heintiau a gwnaethant gadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant priodol yn eu rolau. Cadarnhaodd y cofnodion hyfforddiant y gwnaethom edrych arnynt fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar ddihalogi'r cyfarpar yn gywir.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y trefniadau sydd ar waith i reoli meddyginiaethau yn briodol.

Gwelsom nad oedd y staff yn rhoi meddyginiaethau fel mater o drefn, heblaw am y rhai a ddefnyddir mewn argyfwng. Nodwyd gennym fod polisi addas ar gyfer trin, storio, defnyddio a gwaredu meddyginiaethau yn ddiogel. Gwelsom hefyd fod pad presgripsiwn y practis yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd yr oergell a ddefnyddir i storio meddyginiaethau yn cael ei rheoli'n gywir ac roedd gwiriadau tymheredd yn cael eu cofnodi'n addas.

Gwnaethom nodi o edrych ar y sgrin yn ardal y dderbynfa fod y cleifion yn cael eu hannog i siarad â'u clinigwyr am unrhyw newidiadau yn eu hanes meddygol.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr ar waith i sicrhau bod argyfyngau meddygol yn cael eu rheoli'n ddiogel ac yn effeithiol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob un ohonynt yn meddu ar gymwysterau addas ym maes adfywio cardiopwlmonaidd a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf. Wrth archwilio'r cyfarpar brys, gwelsom fod yr holl eitemau yn bresennol, yn hawdd cael gafael arnynt ac o fewn eu dyddiadau defnyddio. Gwnaethom nodi bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal ar yr holl gyfarpar brys.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd gweithdrefnau diogelu addas a chyfredol ar waith i amddiffyn plant ac oedolion. Roedd y gweithdrefnau yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth lleol, yn nodi arweinydd diogelu a oedd wedi'i benodi ac yn ymgorffori Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant addas ar ddiogelu plant ac oedolion. Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth foddhaol o'r gweithdrefnau diogelu gan ddweud y byddent yn gwybod sut i godi pryder ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod y cyfarpar clinigol mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Roedd y cyfarpar deintyddol aml dro yn cael ei ddefnyddio mewn modd a oedd yn hyrwyddo gofal cleifion diogel ac effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus o ran defnyddio'r cyfarpar, ac roedd y cofnodion hyfforddiant a welsom yn cadarnhau eu bod wedi cael hyfforddiant addas ar gyfer eu rolau.

Gwelsom fod ffolder diogelu rhag ymbelydredd y practis yn gyfredol ac yn gynhwysfawr. Dangosodd y clinigwyr fod y cleifion yn cael eu hysbysu am risgiau a manteision ymbelydredd a gwelsom fod y rheolau lleol i'w gweld yn glir ym mhob deintyddfa. Roedd y cofnodion hyfforddiant staff a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant radiograffeg i lefel briodol.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod y staff yn asesu cleifion ac yn gwneud diagnosis yn ddiogel. Roedd cofnodion y cleifion a welsom yn dangos bod triniaethau yn cael eu darparu'n unol ag anghenion clinigol gan ddilyn canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol.

Dangosodd y staff clinigol y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau ac roeddent hefyd yn gwybod ble i gael gafael ar gyngor proffesiynol perthnasol pe bai angen.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i gofnodi bod y cleifion yn deall y gweithdrefnau llawfeddygol ac yn cydsynio iddynt. Fodd bynnag, ni welsom ddefnydd priodol o restr wirio, fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol, er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses gadarn ar waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir, fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol, fel mater o arfer da.

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion cyfanswm o naw claf yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion yn cael eu cadw'n unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data ar system ddigidol ddiogel. Ar y cyfan, roedd y cofnodion hyn yn gyfredol ac yn gofnod cywir o'r gofal a ddarperir i'r cleifion. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd yr oedd angen eu gwella, gan gynnwys:

- Nid oedd triniaethau radiograffig tri chlaf wedi cael eu cofnodi'n gywir, gan gynnwys y cofnodion o ran cyfiawnhau cynnal y driniaeth, canfyddiadau

clinigol y radiograffau ac un cofnod lle nad oedd y radd ansawdd wedi'i chofnodi

- Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt bod “Delivering Better Oral Health”: pecyn cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i roi ar waith
- Nid oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn ar gael yn unrhyw un o'r cofnodion a welsom.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.

Wrth edrych ar y system a ddefnyddir i gofnodi a monitro atgyfeiriadau cleifion at rannau eraill o'r gwasanaeth iechyd, gwelsom nad oedd un atgyfeiriad wedi cael ei gofnodi. Gwelsom hefyd nad oedd y practis wedi olrhain un atgyfeiriad. Ar y cyfan, nid oedd y system a oedd ar waith yn broses glir na chadarn ac roedd hyn yn golygu bod risg na fyddai'r cleifion yn cael y gofal yr oedd ei angen arnynt gan adrannau eraill o'r gwasanaeth iechyd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r system sydd ar waith ar gyfer monitro atgyfeiriadau'r cleifion.

Cadarnhaodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC fod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn unrhyw apwyntiad. Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno eu bod wedi rhoi cydsyniad ar sail gwybodaeth a bod eu triniaethau wedi cael eu hesbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Nodwyd gennym fod strwythur rheoli clir ar waith er mwyn helpu i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn effeithiol. Roedd y practis yn rhan o gwmni corfforaethol mwy a oedd yn helpu'r staff lle y bo angen. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal bob mis ac roedd pob aelod o'r staff yn bresennol ynddynt. Wrth adolygu cofnodion y cyfarfodydd staff, gwnaethom nodi trafodaethau addas mewn perthynas ag iechyd a diogelwch, diogelu, boddhad cleifion, arolygon a chwynion.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwrtais, yn barchus ac yn cefnogi ei gilydd. Dywedodd y staff wrthym fod ganddynt hyder yn y rheolwyr ac y byddent yn gwybod pwy i siarad â nhw pe byddai angen iddynt wneud hynny. Esboniodd rheolwr y practis ei fod wedi cael y cymorth a'r hyfforddiant priodol i gyflawni ei rôl arwain yn effeithiol.

Roedd y practis wedi cwblhau'r *Matrics Aeddfedrwydd* ar gyfer *Deintyddiaeth* drwy *Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)* yn 2020. Roedd y practis yn bwriadu cynnal gweithgaredd datblygu tîm o fewn y 12 mis nesaf er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi gwybod i AGIC am y gweithgaredd datblygu tîm a gynhelir o fewn 12 mis i'r arolygiad hwn.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom gydberthnasau gwaith cryf rhwng y staff ac amgylchedd gweithio cadarnhaol yn y practis. Roedd system briodol ar waith i sicrhau bod nifer addas o staff cymwysedig yn gweithio ar unrhyw adeg benodol.

Gwelsom fod trefniadau cynhwysfawr a chefnogol ar waith er mwyn galluogi pob aelod o'r staff i gael hyfforddiant hyd at lefel briodol ar gyfer eu rolau. Gwnaethom edrych ar 7 o'r 15 o gofnodion staff, a gwelsom gydymffurfiaeth lawn â'r holl ofynion o ran hyfforddiant gorfodol. Roedd system ddigidol gadarn yn cael ei defnyddio i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant y staff ac i gynnal cofnodion y staff yn briodol.

Wrth edrych ar gofnodion y cleifion a chynnal trafodaethau â'r staff, gwnaethom nodi bod y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant a bod y dyddiau

tawelach yn ystod yr wythnos yn cael eu defnyddio i gwblhau gweithgareddau hyfforddi. Roedd y rheolwyr yn goruchwyllo'r prosesau ar gyfer sefydlu staff drwy bolisi recriwtio priodol a rhestr wirio sefydlu fanwl. Gwelsom dystiolaeth bod yr holl arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol a bod arfarniadau'r rhan fwyaf o'r staff yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd ffeil un o'r clinigwyr a oedd yn cael ei gyflogi yn cynnwys arfarniad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff a gaiff ei gyflogi yn cael arfarniad blynyddol.

Esboniodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn gwybod beth i'w wneud a phwy i siarad â nhw pe byddai ganddynt bryder am y ffordd roedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu, triniaethau neu drefniadau rheoli. Gwelsom fod polisi chwythu'r chwiban y practis hefyd yn foddhaol.

Roedd trefniadau addas ar waith i fonitro a chynnal rhwymedigaethau proffesiynol y staff hynny a oedd yn gweithio yn y practis o'r adeg y gwnaethant ddechrau gweithio yno. Roedd pob un o'r cofnodion staff a welsom yn gwbl gyflawn, gan gynnwys cofrestriadau cyfredol â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, gwiriadau Manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gwiriadau geirdaon cyn cyflogi. Pan nad oedd gwiriadau geirdaon ar gael ar gyfer cyflogeion a oedd wedi gweithio yn y practis am gyfnod hir, roedd asesiad risg yn cael ei gynnal i sicrhau diogelwch y cleifion. Roedd system gydymffurfiaeth ddigidol yn cael ei defnyddio i sicrhau bod cofnodion pob aelod o'r staff yn gyfredol.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwelsom fod system gadarn ar waith ar gyfer casglu ac adolygu adborth gan gleifion. Gwelsom ffurflenni adborth wrth y dderbynfa a dywedodd y staff wrthym eu bod yn rhoi system newydd ar waith lle y byddai ffurflenni adolygu gwasanaeth cwsmeriaid yn cael eu hanfon at gleifion i'w cwblhau ar-lein ar ôl cael triniaeth. Roedd y rheolwyr yn adolygu adborth gan gleifion yn rheolaidd ac roedd ymatebion y gwasanaeth i'r adborth yn cael eu cyhoeddi yn y cylchlythyr i gleifion a oedd ar gael yn ardal y dderbynfa. Gwelsom hefyd fod adborth gan gleifion yn cael ei drafod yn ystod pob cyfarfod tîm er mwyn annog dysgu ar y cyd a llywio'r broses o wella ansawdd.

Roedd y weithdrefn gwyno wedi'i hamlinellu yn ffolder polisiau'r practis a oedd ar gael i gleifion yn y dderbynfa. Roedd amserlen glir ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion wedi'i nodi yn y polisi, ynghyd â gwybodaeth am y gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Roedd manylion AGIC wedi'u cynnwys yn nhaflen gwynion y practis ar gyfer y cleifion. Roedd cwynion yn cael eu goruchwyllo gan reolwr y practis a'u

coladu gan ddefnyddio system ar-lein addas. Roedd cwynion a wnaed ar lafar yn cael eu huwchgyfeirio at reolwr y practis ac yna eu cofnodi ar systemau'r practis. Ni welsom unrhyw themâu cyffredin yn codi yn y pedair cwyn a welsom, a nodwyd gennym fod y practis wedi ymdrin â nhw yn broffesiynol ac yn gyflym.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod dull rhagweithiol o wella ansawdd gyda'r holl weithgareddau gwella gorfodol yn mynd rhagddynt. Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau cynhwysfawr a rheolaidd o gofnodion cleifion, rhagnodi gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd ac archwiliadau atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl archwiliadau rheoli heintiau yn cyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Hay-on-Wye Dental Centre

Dyddiad yr arolygiad: 30 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.					

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Hay-on-Wye Dental Centre

Dyddiad yr arolygiad: 30 Gorffennaf 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
1.	Ni welsom ddefnydd priodol o restr wirio, fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol, er mwyn atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses gadarn ar waith i atal achosion o dynnu'r dannedd anghywir, fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol, fel mater o arfer da.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (b)	Mae gwiriadau cyn tynnu dant o dan anesthetig lleol wedi cael eu hychwanegu at y cyfrifiaduron ym mhob deintyddfa a thrafodwyd eu defnyddio â chlinigwyr a'r staff	Julia Cooper	16/09/24
2.	Roedd cofnodion y cleifion yn gyfredol ac yn gofnod cywir o'r gofal a ddarperir i'r cleifion ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai meysydd yr oedd	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cofnodion cleifion cyflawn eu cadw bob amser yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a chanllawiau Cyfadran	Adran 20	Trafodwyd gofynion cofnodion cleifion â'r clinigwyr ac mae'r gofynion radiograffig a gofynion "Delivering Better Oral Health" a'r templedi wedi cael eu	Julia Cooper	16/09/24

angen eu gwella, gan gynnwys:

Nid oedd triniaethau radiograffig tri chlaf wedi cael eu cofnodi'n gywir, gan gynnwys y cofnodion o ran cyfiawnhau cynnal y driniaeth, canfyddiadau clinigol y radiograffau ac un cofnod lle nad oedd y radd ansawdd wedi'i chofnodi

Ni welsom unrhyw dystiolaeth yn y cofnodion y gwnaethom edrych arnynt bod “Delivering Better Oral Health”: pecyn cymorth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i roi ar waith.

Ymarfer Deintyddol Cyffredinol y DU.

diwygio er mwyn sicrhau eu bod yn eu cynnwys.

3.	Nid oedd dewis iaith y cleifion nac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn wedi cael eu cofnodi yn unrhyw un o'r cofnodion cleifion a welsom.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.	Adran 13	Trafodwyd hyn â'r clinigwyr ac rydym wedi ei ychwanegu at y templedi clinigol	Julia Cooper	16/09/24
4.	Wrth edrych ar y system a ddefnyddir i gofnodi a monitro atgyfeiriadau cleifion at rannau eraill o'r gwasanaeth iechyd, gwelsom nad oedd un atgyfeiriad wedi cael ei gofnodi. Gwelsom hefyd nad oedd y practis wedi olrhain un atgyfeiriad. Ar y cyfan, nid oedd y system a oedd ar waith yn broses glir na chadarn ac roedd hyn yn golygu bod risg na fyddai'r cleifion yn cael y gofal yr oedd ei angen arnynt gan	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella'r system sydd ar waith ar gyfer monitro atgyfeiriadau'r cleifion.	Adran 13 (1) (b)	Mae adnodd tracio atgyfeiriadau wedi cael ei ychwanegu at system rannu'r practis ar gyfer pob deintyddfa ac rydym wedi trafod y mater â'r tîm. Caiff y mater ei ychwanegu at restr wirio'r ddeintyddfa i'w wirio bob wythnos.	Julia Cooper	16/09/24

	adrannau eraill o'r gwasanaeth iechyd.					
5.	Roedd y practis wedi cwblhau'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth drwy Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yn 2020. Roedd y practis yn bwriadu cynnal gweithgaredd datblygu tîm o fewn y 12 mis nesaf er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus.	Dylai'r rheolwr cofrestredig roi gwybod i AGIC am y gweithgaredd datblygu tîm a gynhelir o fewn 12 mis i'r arolygiad hwn.	Adran 16 (1) (a)	Byddwn yn cynllunio prynhawn datblygu tîm yn y flwyddyn newydd	Julia Cooper	1/5/25
6.	Gwelsom dystiolaeth bod yr holl arfarniadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol a bod arfarniadau'r rhan fwyaf o'r staff yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd ffeil un o'r clinigwyr a oedd yn cael ei gyflogi yn cynnwys arfarniad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff a gaiff ei gyflogi yn cael arfarniad blynyddol.	Adran 17 (4)	Cwblhawyd arfarniad yr hylenydd ar 31/7/24	Julia Cooper	16/09/24

7.	Nid oedd yr archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl archwiliadau rheoli heintiau yn cyd-fynd â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.	Adran 16	Fel practis preifat, nid yw'r archwiliad rheoli heintiau ar gyfer Cymru ar gael i ni. Rwyf wedi cysylltu ag un o'r practisau eraill yng Nghymru i gael copi, ond nid wyf wedi cael gafael ar gopi hyd yma.	Julia Cooper	31/10/24
----	---	--	----------	--	--------------	----------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Julia Cooper
Teitl swydd: Rheolwr y Practis
Dyddiad: 18/09/24